

| | |
|-----------------|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| DYDDIAD | 4ydd o Fehefin 2013 |
| PWNC | Hyfforddiant Aelodau – Gofynion Siarter Aelodau. |
| PWRPAS | Cyflwyno gwybodaeth am y Siarter Datblygu Aelodau er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen. |
| Awduron | Cynghorydd Les Day, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| | Geraint George Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi llunio Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru, y cyfeirir ati ar lafar fel 'Siarter Aelodau'.. Datblygwyd y Siarter ar ei newydd wedd yn 2012/13 gan ymgynghori â chylchoedd gwleidyddol a swyddogion cynorthwyo cynghorwyr pob awdurdod.
2. Mae CLILC yn cydnabod fod sawl her o flaen cynhorwyr y dyddiau hyn, a bod disgwyl iddynt gyflawni amryw ddyletswyddau, megis arwain yn y gymuned ac ysgwyddo cyfrifoldebau penodol yn y Cyngor. Datblygwyd y Freinlen er mwyn sicrhau y bydd rhaglen gymorth drefnus trwy Gymru gyfan ar gyfer cynorthwyo aelodau etholedig yn eu gwaith.
3. Mae tair lefel i'r broses, sef
 - Y Freinlen – gallai'r rhan fwyaf o awdurdodau ei hennill ar ol ond ychydig o fisoedd o waith
 - Y Freinlen Uwch – sy'n fwy ymestynnol am fod angen paratoi am ryw flwyddyn i'w hennill ar ol cyrraedd y lefel sylfaenol.
 - Gwobr Rhagoriaeth – angen gweld cymorth cywrain iawn a deilliannau amlwg i'r gwaith.
 (Gweler grynodedd o'r hyn y bydd ennill y freinlen yn ei gyflawni i'r Cyngor yn **Atodiad A**)
4. I ymgeisio am y freinlen bydd angen i'r Awdurdod ddilyn y camau gweithredu a nodir isod:
 - a) Mynegi ei ymrwymiad corfforaethol i ymgeisio am y Freinlen trwy lofnodi datganiad o'i fwriad yn un o gyfarfodydd y Cyngor llawn.
 - b) Cynnal hunanasesiad bras yn ôl y meini prawf perthnasol a sefydlu cynllun gweithredu ar gyfer unrhyw waith datblygu er mwyn ateb gofynion y Freinlen.
 - c) Rhoi'r cynllun gweithredu ar waith a chyflwyno'r hunanasesiad i'r Gymdeithas (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)
 - d) Bydd tim o gymheiriaid yn adolygu'r cais ac yn rhoi adborth cynhyrchiol a chefnogol. Bydd rhai cymheiriaid yn ymweld â'r awdurdod yn anffurfiol fel rhan o'r cais.

5. Mae elfennau o'r freinlen yn cyd-fynd ac yn adeiladu ar ofynion y Mesur Llywodraeth Leol a adroddwyd eisoes. Mae ennill y Siarter, ynghyd a'r gwaith i baratoi tuag at Adolygiadau blynyddol o anghenion hyffoddi a dstblygu aelodau yn cefnogi egwyddorion y Cyngor ynghylch cefnogi datblygiad aelodau etholedig i'w galluogi i weithredu yn llwyddiannus yn eu rolau.
6. Mae'r uchod hefyd yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd gan yr is-grwp hyfforddiant fel rhan o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn y cyfnod hyd at Chwefror 2013.

Argymhellion:

7. Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn datgan diddordeb mewn ymgeisio am y Freinlen (Siarter) yn ystod 2013/14 gan adrodd yr argymhelliad yma i'r Cyngor llawn nesaf ar y 19eg o Fedi 2013.

Bydd y Freinlen yn:

- Cynnwys pob agwedd ar gymorth i gynghorwyr, megis trefniadau cyfansoddiadol, fframwaith strategol ac ymarferol ar gyfer datblygu cynghorwyr, gwasanaethau i gynghorwyr a chyfleusterau iddyn nhw.
- Cael ei hennill yn ôl canllawiau y cytunwyd amyn nhw. Bydd byd llywodraeth leol yn cadw llygad ar y trefniadau ac yn eu hasesu o'i wirfodd trwy gyfrwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a fydd yn rhoi gwybod i Lywodraeth y Cynulliad am y cynnydd.
- Rhoi datganiad, o'i hennill, o ymrwymiad yr awdurdod i gynorthwyo ei gynghorwyr, a bydd modd defnyddio hynny i annog pobl i sefyll mewn etholiadau.
- Cydnabod y bydd gan bob awdurdod ei ddull, ei flaenoriaethau a'i strwythur ei hun, ac mae hynny i'w groesawu.
- Hyrwyddo'r syniad o gynorthwyo a datblygu pob cynghorydd, beth bynnag fo'i blaidd wleidyddol, a chydabod cyfraniad pob plaidd wleidyddol at ddatblygiad gwleidyddol y cynghorwyr.
- Cydnabod bod pob cynghorydd yn dod â'i fedrau a'i rinweddau ei hun i'r awdurdod. Nid cynhyrchu criw o gynghorwyr unffurf yw diben y Freinlen, na'u gorfodi nhw i ymddwyn mewn modd penodol, ond rhoi'r wybodaeth, y medrau a'r cyfleoedd priodol iddyn nhw i'w galluogi i gyflawni'r swyddogaethau maen nhw wedi'u dewis.
- Annog yr awdurdodau i edrych ar y ffordd maen nhw'n gweithio, i ofalu bod pob cynghorydd yn cael cymryd rhan yn y gwaith hwnnw.

(CLILC – Breinlen ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru)